Gwahoddiad i Dendro: Archwiliad o Anghenion Digidol a Chynllun i Ddatblygu Gwefan

Dyddiad cau ar gyfer cynigion: 5.00pm dydd Llun 7 Rhagfyr 2026

1. Cyflwyniad

Mae Llenyddiaeth Cymru yn paratoi i fuddsoddi mewn ailddatblygiad sylweddol o wefan y sefydliad. Nid ydym am frysio'r gwaith hwn. Er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad yn strategol, yn addas ar gyfer y dyfodol, ac yn cyd-fynd ag anghenion ein sefydliad, rydym yn chwilio am arbenigwr digidol llawrydd neu gwmni i gynnal archwiliad trylwyr o'n gwefannau presennol ac i lunio cynllun manwl ar gyfer datblygu ein presenoldeb digidol newydd.

Gwahoddwn gynigion gan weithwyr llawrydd profiadol neu gwmnïau sydd ag arbenigedd mewn strategaeth ddigidol, hygyrchedd, profiad defnyddiwr, a chynllunio datblygu gwefannau.

2. Trosolwg

Pwrpas y prosiect hwn yw asesu ein dau wefan presennol (www.llenyddiaethcymru.org a www.tynewydd.cymru), gwerthuso pa mor effeithiol y maent yn gwasanaethu ein cynulleidfaoedd amrywiol, a darparu cynllun clir ac ymarferol ar gyfer creu gwefan newydd neu wefannau newydd. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso ymarferoldeb cyfredol, hygyrchedd, strwythur, cynnwys, teithiau defnyddwyr a chyfyngiadau technegol, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd ar gyfer gwell integreiddio, hyblygrwydd, ac addasrwydd hirdymor.

Bydd yr allbwn terfynol yn llywio ein prosesau caffael a datblygu yn y dyfodol.

Dysgwch fwy am swyddogaethau amrywiol presennol ein dwy brif wefan a'n cynulleidfaoedd allweddol yn Atodiad 1.

3. Cwmpas y Gwaith

Disgwylir i'r gweithiwr llawrydd/cwmni a benodir gyflawni'r canlynol:

3.1 Archwiliad o Anghenion Digidol

- Adolygu strwythur, cynnwys, teithiau defnyddwyr, a pherfformiad technegol y ddwy wefan, gan ddefnyddio dadansoddiadau sydd ar gael, mewnbwn gan randdeiliaid, a thasgau defnyddwyr cynrychioliadol lle bo hynny'n briodol.
- Asesu cydymffurfiaeth hygyrchedd y ddwy wefan yn unol â safon WCAG 2.2 Lefel AA, nodi rhwystrau sy'n effeithio ar deithiau defnyddwyr, a nodi meysydd i'w gwella.
- Gwerthuso pa mor ymarferol yw defnyddio nodweddion allweddol y safleoedd ar draws dyfeisiau a porwyr gwahanol.
- Dadansoddi yr hyn gall y system rheoli cynnwys (CMS) presennol ei wneud a beth sydd tu hwnt i'w allu, a pa mor addas ydyw ar gyfer anghenion y dyfodol.
- Nodi bylchau, risgiau a chyfleoedd o fewn y trefniant presennol.

3.2 Ymarferoldeb Integreiddio Is-wefannau

Ar hyn o bryd, mae gwefannau Tŷ Newydd a Llenyddiaeth Cymru ar wahân, er iddynt gael eu dylunio a'u cynnal gan yr un cwmni. Rydym am archwilio sut y gellid cysylltu'r gwefannau'n well, tra'n parhau i sicrhau profiad defnyddiwr unigryw ar gyfer Tŷ Newydd. Ein blaenoriaethau yw:

- Cynnwys gwybodaeth am Tŷ Newydd yn well ar wefan Literature Wales.
- Sicrhau bod modd dod o hyd i Tŷ Newydd a'i *domain* unigryw yn hawdd drwy beiriannau chwilio.
- Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu symud yn gyflym rhwng safleoedd Llenyddiaeth Cymru a Tŷ Newydd, ond bod y symudiad hwnnw'n glir ac yn dryloyw.

Disgwylir i'r gweithiwr llawrydd/cwmni a benodir gyflawni'r canlynol:

- Archwilio opsiynau ar gyfer cysylltiad gwell rhwng y ddwy wefan, gan gynnwys mudo llawn; is-wefan annibynnol; y trefniant presennol, ac opsiynau posibl eraill.
- Asesu sut mae cynulleidfaoedd gwahanol yn cyrraedd y ddwy wefan, a goblygiadau integreiddio o ran gweledded y wefan, yn ogystal â'r effaith bosibl ar werthiant ein cyrsiau ysgrifennu creadigol.
- Asesu goblygiadau technegol, strwythurol a dylunio.
- Darparu argymhellion ar gyfer integreiddio, mudo, neu ddulliau gweithredu eraill.

3.3 Paratoi ar gyfer y dyfodol a hyblygrwydd

- Argymell dulliau sy'n galluogi twf modiwlaidd, nodweddion newydd, ac anghenion sefydliadol sy'n esblygu.
- Cynghori ar opsiynau systemau rheoli cynnwys (CMS) y gellir eu graddio, ystyriaethau *hosting*, a modelau cynnal a chadw hirdymor.

3.4 Cynllun Datblygu

- Cynhyrchu cynllun clir ar gyfer creu'r wefan newydd, gydag ystyriaeth tuag at gostau.
- Cynhyrchu map safle arfaethedig sy'n dangos teithiau defnyddwyr gwell.
- Amlinellu'r gofynion o ran amserlenni ac adnoddau.
- Darparu canllawiau ar gaffael (e.e., beth i'w gynnwys mewn tendr gwefan yn y dyfodol).
- Awgrymu dulliau arfer gorau ar gyfer hygyrchedd, UX, strategaeth cynnwys a phensaernïaeth dechnegol.

Nodyn: Rhaid i'r archwiliad a'r cynllun datblygu ystyried cynnwys dwyieithog Saesneg a Chymraeg y sefydliad, gan gynnwys trefnu cynnwys, llifau gwaith cyfieithu, chwilio, llywio, metadata a chynnal cydraddoldeb rhwng fersiynau iaith.

4. Cyflawniadau

Bydd y gweithiwr llawrydd/cwmni yn:

1. **Cynnal cyfarfod cychwynnol** gyda staff Llenyddiaeth Cymru i drafod heriau a blaenoriaethau wrth gyflawni'r gwaith.
2. **Darparu Adroddiad ar Archwiliad Anghenion Digidol**: Asesiad ysgrifenedig o'r ddwy wefan sy'n crynhoi'r dystiolaeth a adolygwyd, y canfyddiadau, y risgiau, y bylchau, y cyfleoedd a'r argymhellion y dylid eu blaenoriaethu.
3. **Cynllun Datblygu Gwefan**: Canllaw strwythuredig sy'n amlinellu'r dull arfaethedig, ystyriaethau technegol, amserlenni, a'r camau nesaf. Dylai'r cynllun hefyd gynnwys map safle arfaethedig a gwelliannau i deithiau defnyddwyr.

4. **Cyflwyniad / Sesiwn Ôl-drafod**: Cyfarfod gyda staff allweddol i gyflwyno canfyddiadau ac ateb cwestiynau.

5. Sgiliau a Phrofiad Gofynnol

Rydym yn chwilio am weithiwr llawrydd sydd â:

- Phrofiad profedig o gynnal archwiliadau digidol ac o ddatblygu strategaethau gwefannau.
- Dealltwriaeth gadarn o safonau hygyrchedd a dylunio cynhwysol.
- Arbenigedd mewn llwyfannau CMS ac arferion gorau datblygu gwefannau.
- Y gallu i gyfleu cysyniadau technegol yn glir i randdeiliaid nad ydynt yn dechnegol.
- Profiad o weithio gyda sefydliadau celfyddydol, diwylliannol neu sefydliadau dielw (yn ddymunol).

6. Amserlen

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau: 5.00pm dydd Llun 7 Rhagfyr 2026

Apwyntio gweithiwr llawrydd/cwmni: Dydd Llun 14 Rhagfyr 2026

Dyddiad cyflawni'r gwaith: Dydd Llun 15 Chwefror 2027

7. Cyllideb

Darparwch ddadansoddiad costau manwl, gan gynnwys cyfraddau dyddiol, nifer amcangyfrifedig o ddiwrnodau, ac unrhyw dreuliau ychwanegol.

Y gyllideb uchaf sydd ar gael ar gyfer y comisiwn hwn yw £4500, gan gynnwys pob ffi, treuliau a TAW.

8. Gofynion Cyflwyno

Dylai gweithwyr llawrydd sydd â diddordeb gyflwyno:

- Cynnig sy'n amlinellu sut y byddech chi'n mynd ati i gyflawni'r prosiect.
- Crynodeb o brofiad perthnasol ac enghreifftiau o waith tebyg.

- Amserlen a methodoleg arfaethedig.
- Dadansoddiad llawn o'r costau.
- Manylion cyswllt ar gyfer dau eirda/prosiectau diweddar yr ydych wedi eu cyflawni.

Caiff cynigion eu hasesu yn seiliedig ar ansawdd ac ymarferoldeb y dull arfaethedig, profiad perthnasol, dealltwriaeth o'n cynulleidfaoedd a gofynion hygyrchedd, y gallu i gyflawni'r gwaith o fewn yr amserlen a nodwyd, a gwerth am arian.

Dylid anfon cynigion at **Branwen Llewellyn ar press@literaturewales.org erbyn 5.00 dydd Llun 7 Rhagfyr 2026.**

9. **Cysylltu**

Am ragor o wybodaeth neu os oes gyda chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â: **Branwen Llewellyn, Arweinydd Cyfathrebu: branwen@llenyddiaethcymru.org / 029 20472266**

Atodiad 1

www.llenyddiaethcymru.org

Cynulleidfa	Beth maent angen ei wneud ar y wefan
Awduron	Dod o hyd i wybodaeth a chyngor yn sydyn
Awduron	Dod o hyd i wybodaeth am gyfleoedd a gwasanaethau
Awduron	Rhestru eu proffil ar Restr Awduron Cymru
Awduron	Dod o hyd i wybodaeth am Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd (a chyrraedd y man archebu yn hawdd)
Trefnwyr Digwyddiadau	Dod o hyd i wybodaeth am nawdd ar gyfer digwyddiadau
Trefnwyr Digwyddiadau	Gwneud cais am nawdd
Trefnwyr Digwyddiadau	Dod o hyd i wybodaeth am awduron o Gymru (Restr Awduron Cymru)
Athrawon	Dod o hyd i wasanaethau Llenyddiaeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc
Athrawon	Darganfod rhagor am gynlluniau Bardd Plant Cymru a Children's Laureate Wales
Darllenwyr a Llên Garwyr	Darganfod y newyddion diweddaraf am Wobr Llyfr y Flwyddyn
Darllenwyr a Llên Garwyr	Darllen / gwylio / gwrando ar gynnwys creadigol
Darllenwyr a Llên Garwyr	Dod o hyd i ddigwyddiadau lleol
Arianwyr, Dylanwadwyr a Chyrff Llywodraethu	Dod o hyd i'r effaith mae gwaith Llenyddiaeth Cymru yn ei gael
Arianwyr, Dylanwadwyr a Chyrff Llywodraethu	Gweld statws elusennol Llenyddiaeth Cymru heb orfod chwilio

Arianwyr, Dylanwadwyr a Chyrff Llywodraethu	Cyrraedd gwybodaeth am sut i gefnogi Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys rhoddion untro neu reolaidd, gadael rhodd mewn ewyllys ayyb
Arianwyr, Dylanwadwyr a Chyrff Llywodraethu	Dod o hyd i ddogfennau cyfreithiol yn hawdd

www.tynewydd.cymru

Cynulleidfa	**Beth maent angen ei wneud ar y wefan**
Awduron	Darganfod mwy am ein cyrsiau ac encilion ysgrifennu creadigol
Awduron	Archebu lle ar un o'n cyrsiau neu encilion
Awduron	Archebu arhosiad ym mwthyn encil Nant
Awduron	Dod o hyd i wybodaeth am Tŷ Newydd (sut i gyrraedd, beth i'w ddisgwyl yn ystod cwrs/encil, opsiynau llety, bwyd a diod, opsiynau talu, ysgoloriaethau, beth i'w wneud yn yr ardal leol ayyb)
Arianwyr, Dylanwadwyr a Chyrff Llywodraethu	Dod o hyd i'r effaith mae gwaith Tŷ Newydd (a Llenyddiaeth Cymru) yn ei gael
Arianwyr, Dylanwadwyr a Chyrff Llywodraethu	Gweld statws elusennol Llenyddiaeth Cymru heb orfod chwilio
Arianwyr, Dylanwadwyr a Chyrff Llywodraethu	Cyrraedd gwybodaeth am sut i gefnogi Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys rhoddion untro neu reolaidd, gadael rhodd mewn ewyllys ayyb
Arianwyr, Dylanwadwyr a Chyrff Llywodraethu	Dod o hyd i ddogfennau cyfreithiol yn hawdd